COFNODION WYTHFED GYNHADLEDD FLYNYDDOL
A CHYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL
ADDYSG OEDOLION CYMRU | ADULT LEARNING WALES

Cynhaliwyd yn Theatr Soar, Merthyr Tudful ddydd Mawrth 9 Ebrill 2024

Yn bresennol:
Swyddogion - Nia Parry (Llywydd), John Graystone (Cadeirydd), Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Stephen Thomas (Clerc/Ysgrifennydd y Cwmni) (4).

Aelodau Unigol - Mark Baines, Rachel Burton, Cathy Clark, Andrea Davies, Sam Emmett, Salamatu Fada, Christopher Franks, Adele Gatt, Cath Hicks, Jayne Ireland, Jenni Jones-Annetts, Nicole Kinnaird, Ronald Leach, Stephen Nicholls, Tim Palazon, Martyn Reed, Leane Saunders, Jan Tiley, Judith Wilding (19).

Aelodau Unigol a Chynrychiolwyr Canghennau - Harold Davies, David MacManus a Marilyn Thomas (Cangen Caerffili) (3).

Aelodau Unigol a/neu Gynrychiolwyr Sefydliadau Cyswllt a Phartner - Karen Bennett (Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin), Anne Brock (Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg), Rhiannon Davies, Joanne Gerlach a Scott Thomas (Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful), Kathy Jones a Karen Langworthy (Prifysgol De Cymru), Dona Lewis (Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol), Siôn Aled Owen (Geirda Cyf.), Dilwyn Roberts (Canolfan Soar), David Smith (Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru), Tracy Thomas (Iechyd Meddwl New Horizons) (12).

Enillwyr Gwobrau, Siaradwyr, Staff, Cefnogwyr ac Eraill yn bresennol - Alex Harrison: Anabledd Cymru (siaradwr gwadd); Anthony Phillips (Archwilydd, Baker Knoyle Chartered Accountants Ltd.); Stephen Ash, Rachel Devine, Mark Williams (dysgwyr yn bresennol); Samantha al-Khanchi, Scott Baker, Rebecca Bennett-Wilding, Jeni Bone, Clair Charalambous, Catherine Davies, Gail Davies, Tamara Garnault, Ann Herbert, Sophie Jones, Shelley Kear, Helena L'Alik, Alex Lloyd, Alex Macintosh, Mary Morris, Sarah O'Neill, Clarissa Pacini-Berzolla, Andrea Planas, Liz Sephton, Olivia Stemmer, Sharon Warren, Sarah Williams-Crouch (staff yn bresennol); Louisa Johnson, Daoud Mohumad, Ceri Stokes (enillwyr Gwobrau Dysgwyr) a Kyle Hill; Iola Llwyd (cyfieithydd ar y pryd); Drew Buckley (ffotograffydd y digwyddiad) (33).

Ymddiheuriadau:
Sue Carlick, Simon Conlin, Amanda Doyle, Judith Evans, Victory Ezeofor, Christina Gallagher, Rachel Halstead, Adrian Heathfield, Matthew Lloyd, Kristian Losztyn, Lisa O'Connor, Tim Owen, Deborah Rees, Sonia Reynolds (Cangen Dyffryn Aman Uchaf a Chwm Twrch), Donna Ridler, Susan Roberts, Ceri Williams (17).

Eitem	**ADDYSG OEDOLION CYMRU | ADULT LEARNING WALES** **CYNHADLEDD FLYNYDDOL AR 'NEWID CANFYDDIADAU O ANABLEDD: YMGORFFORI CYNWYSOLDEB O FEWN ADDYSG OEDOLION'** **A CHYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL (CCB) 2024**
1.	**Croeso a chyflwyniad i'r digwyddiad** Croesawodd Nia Parry bawb a mynegodd pa mor falch ydoedd o fod yn cynnal digwyddiad o'r fath wyneb yn wyneb am y tro cyntaf yn ystod ei llywyddiaeth. Esboniodd rai trefniadau ymarferol a chyfeiriodd at y stondinau arddangos yn y Theatr ac yn y Stiwdio i lawr y grisiau, a oedd yn dangos gwaith dysgwyr a gwybodaeth am weithgareddau sefydliadol. Yna, amlinellodd Kathryn Robson drefn y dydd. Gobeithiai y byddai'r cynnwys yn galluogi pawb a oedd yn bresennol i adael fel llysgenhadon ar gyfer newid, gan groesawu doniau a photensial pobl anabl ac eirioli dros wella'r canfyddiad ohonynt mewn cymdeithas, ac mewn cyd-destunau addysgol yn arbennig.
2.	**Prif araith a phrofiad bywyd o anabledd** Yn ei phrif araith, defnyddiodd Alex Harrison o Anabledd Cymru sioe sleidiau i wahaniaethu rhwng y model meddygol a'r model cymdeithasol o anabledd. Roedd y safbwynt meddygol yn dangos unigolyn anabl fel problem i gymdeithas ymdopi â hi, gan ganolbwyntio ar y cyfyngiadau a'r problemau a grëir gan anabledd o unrhyw fath. Fodd bynnag, lluniwyd y model cymdeithasol gan bobl anabl eu hunain, ac roedd yn canolbwyntio ar oresgyn amhariadau a chwalu rhwystrau a gyflwynir i bobl anabl yn yr amgylchedd, gan sefydliadau, neu gan agweddau pobl eraill. Y byd o'u hamgylch, felly, oedd yr hyn a allai gael effaith niweidiol ar bobl anabl, yn hytrach na chyflwr iechyd oedd yn analluogi ynddo'i hun. Roedd y model a'r dehongliad hyn yn cael eu derbyn fwyfwy, ond roedd llawer mwy o waith i'w wneud o hyd, gan gynnwys yn gysylltiedig â chamddefnyddio iaith: er enghraifft, 'roedd 'unigolyn ag anabledd' yn ymadrodd a oedd yn cyfleu cyflwr cyfyngol, goddrychol, a dylid osgoi ei ddefnyddio. Yna, disgrifiodd Nicole Kinnaird, tiwtor ac aelod o'r Cyngor yn Addysg Oedolion Cymru (AOC), ei phrofiad personol fel unigolyn anabl. Cafodd strôc, a'i gadawodd â gwendid yn ei hochr dde, a oedd yn golygu ei bod yn dibynnu

	weithiau ar Stanley - ei chadair olwyn, neu Rose - ei ffon fagl. Roedd ei heriau iechyd wedi cael effaith niweidiol ar ei gŵr a'i dau fab, yn ogystal ag ysgogi pwl o iselder ynddi hi ei hun. Roedd gofalu am ychydig o ieir wedi ei helpu i wella, ac yna penderfynodd ddychwelyd i addysg trwy ymgymryd â chymhwyster addysgu ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Roedd hyn yn rhannol i gyflawni ei bwriad o chwalu rhwystrau ar gyfer y rhai yr oedd arnynt angen mwy o gymorth addysgol am resymau amrywiol, ac i'w grymuso o ganlyniad. Gofynnodd i aelodau'r gynulleidfa ddangos yr un gwydnwch â hi tuag at greu dyfodol mwy cynhwysol i bawb. Roedd yr ail siaradwr ar y thema hon, sef y cydweithiwr Kristian Losztyn, yn absennol oherwydd salwch, felly cafwyd egwyl luniaeth.
3.	**Ymgorffori Cynwysoldeb** Dangosodd ystod o gyflwyniadau sut roedd AOC yn defnyddio dulliau amrywiol i fynd i'r afael â gwahanol ofynion addysgol ac anghenion dysgu ychwanegol. Yr enghraifft gyntaf oedd fideo o waith grŵp Celfyddydau Cymunedol Emerge yn Wrecsam a Sir y Fflint, gan feithrin cynhwysiant ymhlith ei fyfyrwyr trwy ymarferion chwarae rôl. Yna, arweiniodd Sam Emmett sesiwn ryngweithiol ar drefnu ystafell ddosbarth - ar ffurf cynhadledd, darlith, pedol, cabare neu ddull arall - ar gyfer cyfres o wahanol heriau anghenion dysgu ychwanegol. Roedd y wybodaeth a adroddwyd yn ôl gan y grwpiau a gymerodd ran yn pwysleisio themâu cyffredin: ceisio gwybodaeth flaenorol am anghenion myfyrwyr, a gofyn i fyfyrwyr unigol am eu dewisiadau pan oeddent mewn dosbarth. Clair Charalambous oedd nesaf, a soniodd am anhwylderau niwronodweddiadol a phobl niwrowahanol. Dangosodd linell amser o sut oedd awtistiaeth wedi cael ei thrin ers y 1920au, ac esboniodd nad oedd awtistiaeth yn rhwystr cyfathrebu mor ddifrifol ag yr awgrymir yn aml. Argymhellodd ymagwedd 'empathi dyblyg', a oedd yn cydnabod bod eiriolwr/tiwtor yr un mor bwysig i ddatrys problem gyfathrebu â'r unigolyn awtistig ei hun. Daeth y sesiwn hon o'r gynhadledd i ben gyda chyflwyniad i Iaith Arwyddion Prydain gan Jeni Bone a Sarah Williams-Crouch, oedd â phrofiad o berthnasau byddar neu rhannol fyddar yn eu teuluoedd ac oedd wedi dysgu Iaith Arwyddion Prydain o ganlyniad. Chwaraewyd prawf colli clyw amledd uchel, ynghyd â fideo ar yr Wythnos Ymwybyddiaeth o Fyddardod a sut i addasu'n ystyriol i bobl fyddar. Daeth y sesiwn i ben gyda chyfle i'r cyfranogwyr ymarfer rhai o'r cyfarchion mwyaf cyffredin a ddefnyddir mewn Iaith Arwyddion Prydain.
4.	**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol: Cymeradwyo cofnodion y CCB blaenorol a diweddariad am gamau gweithredu ar y cynigion y cytunwyd iddynt yno**

	Roedd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd Cymraeg > Saesneg ar gael yn y CCB. Roedd y ddarpariaeth yn y cyfansoddiad ar gyfer pleidleisio trwy ddirprwy yn golygu bod Ysgrifennydd y Cwmni wedi derbyn 10 pleidlais ddilys ymlaen llaw gan aelodau: byddai'r rhain yn cael eu bwrw'n briodol a niferoedd terfynol y pleidleisiau'n cael eu nodi yng nghofnodion y cyfarfod. Cafodd cofnodion drafft seithfed CCB Addysg Oedolion Cymru (AOC), a gynhaliwyd yn rhithwir ar 22 Chwefror 2023, eu cymeradwyo fel cofnod cywir (41 o blaid a dim yn erbyn, heb unrhyw bleidleisiau wedi'u hatal). O ran y cynnig ynglŷn ag ymestyn cyfnodau llywodraethwyr yn eu swydd, roedd pum llywodraethwr yn gymwys i barhau am ddwy flynedd arall os oeddent yn dymuno. Roedd tri wedi manteisio ar y cyfle hwnnw, gan gael cyfweliadau a chymeradwyaeth gan weddill y Cyngor: byddai eu cyfnodau'n dod i ben ym mis Mawrth 2025, bellach. Fodd bynnag, roedd dau wedi penderfynu peidio ag ymestyn eu cyfnod y tu hwnt i'w chwe blynedd gwreiddiol - Caroline Davies a Sonia Reynolds. Diolchwyd i bawb am eu cyfraniadau hirsefydlog. Roedd y cynnig arall yn ymwneud ag ailethol Nia Parry i swydd anrhydeddus Llywydd am dair blynedd arall. Cytunwyd arno'n unfrydol, a chadarnhaodd ei phresenoldeb wrth y llyw yn y gynhadledd natur ganolog ei rôl.
5.	**Trosolwg y Prif Weithredwr o waith y flwyddyn, 2023/24** Dechreuodd Kathryn Robson drwy ddiolch i diwtoriaid, staff cymorth, partneriaid ac aelodau am eu gwaith yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd 5,500 o ddysgwyr wedi cael eu haddysgu hyd yma yn y flwyddyn academaidd hon, gyda chyfraddau cwblhau a sgorau bodlonrwydd da, a dychweliad cynyddol dysgu wyneb yn wyneb - yn arbennig o nodedig yng ngogledd Cymru. Tyfodd ein presenoldeb rhyngwladol gyda chynnig *Taith* llwyddiannus yn ymwneud ag awtistiaeth, prosiect gyda'r Gymdeithas Ewropeaidd dros Addysg Oedolion, ac aelodaeth â'r Ffederasiwn Rhyngwladol Cymdeithasau Addysg y Gweithwyr (IFWEA). Gartref, roedd creu cwrs addysg heddwch yn ymadawiad newydd. Darparodd mentrau rhifedd a ariannwyd trwy awdurdodau unedol gan y rhaglen *Lluosi* waith newydd, gan gynorthwyo AOC i oresgyn heriau cyllidebol ar y ffordd. Ond byddai blaenoriaethau addysgol diwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 yn effeithio ar ehangder ein cwricwlwm, a byddai'n rhaid i AOC ymestyn ei hystod o bartneriaethau a'i chyrhaeddiad i wneud iawn am y newid hwnnw. Yn y cyfamser, roedd yr agenda cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi derbyn sylw mewn sawl ffordd yn ystod y flwyddyn, gan

	gynnwys yng nghynhadledd y diwrnod hwnnw a thrwy gydweithio'n barhaus â'r Grŵp Arweinyddiaeth Ddu. Derbyniwyd adroddiad y Prif Weithredwr yn ffurfiol gan y cyfarfod.
6.	**Adroddiad y Cadeirydd ar y flwyddyn ddiwethaf** Cyfeiriodd John Graystone at y newid diweddar i'r Prif Weinidog (Vaughan Gething) ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (Lynne Neagle). Byddai'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) yn dechrau gweithredu ar 1 Awst 2024. O ystyried ei chylch gwaith o gydlynu'r ffrydiau addysg ôl-16 amrywiol, credai fod AOC mewn sefyllfa dda i achub ar gyfleoedd mewn addysg oedolion y byddai'n eu darparu. Er ei fod yn falch o gyflawniadau AOC mewn meysydd mor amrywiol ag addysg ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid, y Gymraeg a gwaith ieuenctid, roedd yn bwysig peidio â llaesu dwylo. Roedd lle i ddod yn fwy trwyadl o ran dilyniant dysgwyr, er enghraifft, a hyd yn oed cynyddu niferoedd cyffredinol myfyrwyr. Byddai ystwythder yn allweddol wrth i heriau newydd godi: dyna'r rheswm dros adolygiad y Cyngor o effaith Deallusrwydd Artiffisial ar ein gweithgareddau y mis nesaf. Gorffennodd drwy fynegi ei ddiolchgarwch i Kathryn Robson, aelodau'r Cyngor a gwirfoddolwyr oedd yn gwneud AOC yn sefydliad mor unigryw. Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd yn ffurfiol gan y cyfarfod. Wrth ateb cwestiwn o'r llawr am y cydbwysedd yn y sefydliad rhwng rôl ei aelodau a changhennau, yn erbyn gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer ymestyn dysgu achrededig, dywedodd John Graystone ei fod yn ymwybodol nad oedd y cynllun aelodaeth yn AOC yn gweithredu'n dda ar hyn o bryd ac y byddai'n cael ei ailwampio, ac y gallai CTER gyflwyno cyfleoedd i wneud newidiadau ychwanegol i gydbwysedd ein cwricwlwm.
7.	**Cyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2022/23 Addysg Oedolion Cymru** Siaradodd Stephen Nicholls (Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau) ynghylch y wybodaeth ariannol gryno a ddosbarthwyd gyda phapurau'r CCB. Roedd yr Adroddiad a'r Datganiadau Ariannol archwiliedig llawn, a gymeradwywyd gan y Cyngor, ar gael ar wefan y Sefydliad. Bu gwarged gweithredu o £35,000 yn ystod y flwyddyn, yn ogystal ag enillion tybiannol ychwanegol ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Roedd cronfeydd wrth gefn arian parod mewn cyflwr iach, a byddai'r rhaglen *Lluosi* yn darparu incwm ychwanegol yn ystod y ddwy flynedd ariannol nesaf. Byddai gwerthu rhywfaint o dir ac eiddo a berchnogir o hyd yn Harlech yn dwyn dros £300,000 yn ystod y flwyddyn 2023/24, tra bod yr ymdrech i chwilio am safle swyddfa i'w brynu yn Abertawe yn parhau.

	Cadarnhaodd Anthony Phillips, ar ran Baker Knoyle Chartered Accountants Ltd., fod eu hadroddiad archwilydd yn ddiamod unwaith eto a bod y cyfrifon yn rhydd rhag gwallau perthnasol. Wrth ateb cwestiwn o'r llawr am y pris a dderbyniwyd am werthu campws Coleg Harlech ychydig flynyddoedd yn gynharach a pharhau i werthu asedau a ddelir yno, dywedodd Anthony Phillips mai eu rôl archwilio oedd gwirio cywirdeb y trafodion a wnaed, nid eu gwerth trafodiadol. Cynigiodd y Llywydd fod yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2023 yn cael eu derbyn. Cymeradwywyd hyn, gyda 46 pleidlais o blaid a dim yn erbyn, heb unrhyw bleidleisiau wedi'u hatal. Gadawodd Anthony Phillips y cyfarfod ar yr adeg hon.
8.	**Ailbenodi Baker Knoyle Chartered Accountants Ltd. yn archwilwyr ar gyfer ymarfer blwyddyn ariannol 2023/24** Ac yntau'n Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, dywedodd Chris Franks fod y Pwyllgor yn goruchwylio archwiliadau mewnol ac allanol yn dymhorol, yn craffu ar effeithiolrwydd gwaith yr uwch dîm, ac yn gwirio rheolaethau oedd ar waith trwy ddogfennau fel y gofrestr risg. Gallai adrodd i'r CCB fod y systemau'n gadarn o ran yr holl feysydd hyn, gan roi tawelwch meddwl ynglŷn â threfniadau gweithio'r Sefydliad. Serch hynny, dywedodd er bod ymdrechion i ddiogelu'r Sefydliad at y dyfodol yn glir, y byddai ansicrwydd i ddod o hyd. Cynigiodd ailbenodi'r archwilwyr ar gyfer ymarfer blwyddyn ariannol 2023/24. Cymeradwywyd y cynnig hwn gyda 46 o bleidleisiau o blaid a dim yn erbyn, heb unrhyw bleidleisiau wedi'u hatal.
9.	**Rhestr aelodau'r Cyngor** Roedd y ddogfen gyfeirio hon a gynhwyswyd ymhlith papurau'r CCB yn dangos y rhai hynny a wasanaethodd ar y Cyngor yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23. Yn ystod y misoedd ers hynny, roedd Marion Burke (TUC Cymru) wedi ymddiswyddo ac roedd Lisa O'Connor (Coleg Cymraeg Cenedlaethol) wedi ymuno. Diolchodd Nia Parry i bawb am eu gwaith gwych.
10.	**Adroddiadau gan ein cynrychiolwyr ar dri Llys Prifysgol** Rhoddodd yr eitem hon ar yr agenda wybod i aelodau am ddatblygiadau yn deillio o statws ffurfiol y Sefydliad yn Llysoedd prifysgolion Aberystwyth, Bangor ac Abertawe. Roedd adroddiadau ysgrifenedig byr wedi'u dosbarthu'n flaenorol. Nodwyd bod Jan Tiley wedi llenwi'r swydd wag a gyhoeddwyd y flwyddyn flaenorol ar Gyngor Prifysgol Abertawe. Derbyniodd y CCB yr adroddiadau fel y'u cyflwynwyd.

11.	**Gwobrau Dysgwyr Addysg Oedolion Cymru 2024** Roedd rhan olaf y trafodion, ar ôl yr egwyl ginio, yn canolbwyntio ar Wobrau Dysgwyr y Sefydliad. Roedd tair i gyd, ar gyfer categorïau gwahanol. Cyflwynodd Nia Parry bob enillydd, y crëwyd fideo cefndir ar eu cyfer, a gwahoddodd bob tiwtor a'u henwebodd i esbonio eu rhesymau dros gynnig eu dysgwyr. Yna, gwahoddwyd pob enillydd i ddweud ychydig yn fwy am eu bywydau a sut oedd eu profiadau addysgol diweddar wedi'u cynorthwyo. Yr enillwyr ym mhob categori oedd: **Goresgyn Rhwystrau** - mae Louisa Johnson (a enwebwyd gan Nicole Kinnaird) wedi cwblhau dau gwrs dysgu digidol yn AOC, trwy Maximus (Remploy gynt) i ddechrau. Mae hi'n teimlo bod y strwythur a'r hyder a gafodd drwy'r rhain wedi ei gwneud yn fwy cyflawn fel unigolyn. A hithau wedi gadael yr ysgol heb gymwysterau a threulio amser yn y carchar, mae'r cyrsiau wedi ei chynorthwyo i gyrraedd cyfnod newydd yn ei bywyd. Mae Louisa yn mwynhau'r agweddau cymdeithasol ar ddysgu a'r cymorth dysgu gan gyfoedion mae hi'n ei roi i eraill yn yr ystafell ddosbarth yn arbennig. **Cyfrannu at y Gymuned** - mae Ceri Stokes (a enwebwyd gan Sophie Jones) wedi bod yn artist graffiti a phaentio â chwistrell amlwg ers blynyddoedd lawer, wedi'i leoli yn y Barri fel sylfaenydd y siop Hurts So Good. Mae Ceri wedi bod yn astudio am Ddyfarniad Lefel 2 mewn Egwyddorion Gwaith Ieuenctid ac mae'n gobeithio symud ymlaen i Lefel 3. Roedd ei brosiect ar gyfer un modiwl o'r Dyfarniad yn cynnwys gwaith adfywio ieuenctid a chymunedol, yn canolbwyntio ar bartneriaeth. Mae'n teimlo bod ei gysylltiadau â Gwasanaeth Ieuenctid Bro Morgannwg wedi ei ysgogi i wneud rhai o'r gweithgareddau mwyaf gwerth chweil o'i fywyd. **Ysbrydoli Pobl Eraill** - mae Daoud Mohumad (a enwebwyd gan Nicole Kinnaird) yn dod o'r Swdan yn wreiddiol ac mae wedi byw yng Nghaerdydd am 10 mlynedd. Yn ystod ei ddosbarthiadau TGCh, mae Daoud wedi dangos ei fod yn gallu defnyddio ei bersonoliaeth i ddod â phobl eraill ynghyd, gan fwynhau a defnyddio'r agweddau cymdeithasol ar y cwrs lle mae wedi gwneud ffrindiau a chynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n galw addysg yn 'fendith' y dylai pawb ei chynnal yn ystod eu bywyd fel oedolion, ac mae'n annog ffoaduriaid yn arbennig i ddechrau dysgu. Roedd y gwobrau a roddwyd iddynt wedi cael eu saernïo o bren gan Gangen Gwaith Saer i Bawb AOC, sydd wedi'i lleoli yn Hwb Dysgu Port Talbot. Ffrydiwyd y seremoni wobrwyo'n fyw i staff ac aelodau.
12.	**Diolch a Sylwadau i Gloi**

	Diolchodd John Graystone i bawb am eu cyfraniad at y digwyddiad - yn siaradwyr, yn gyflwynwyr ac o ran y trefniadau technegol - a hyderai fod yr holl gyfranogwyr wedi cael syniadau newydd am sut i newid ymddygiad, neu arferion addysgu, er mwyn ymgorffori rhai o'r syniadau a gynigiwyd.